


REPORT
ADRODDIAD

CARDIFF CONTEMPORARY FESTIVAL
GŴYL CAERDYDD GYFOES

REVEAL/CONCEAL
DATGELU/CELU

2014



Introduction Cyflwyniad	03
Festival Infographic Ffeithlun yr Ŵyl	04 – 07
Economic and Cultural Benefits to the City Manteision Economaidd a Diwylliannol i'r Ddinas	08 – 09
Cardiff in Context Caerdydd mewn Cyd-destun	10 – 11
Cultural Exchange & International Dialogues Cyfnewidfa Ddiwylliannol a Sgyrsiau Rhyngwladol	12 – 13
Partnerships Partneriaethau	14 – 15
Public Engagement Ymgysylltiad Cyhoeddus	16 – 17
Spaces and Buildings Transformed Trawsnewid Gofod ac Adeiladau	18
Residencies and Commissions Preswylfeydd a Chomisiynau	19 – 24
Employment Opportunities Cyfleoedd Cyflogaeth	25
Media Y Cyfryngau	26 – 27
Legacy Etifeddiaeth	
Management and Steering Group Grŵp Rheoli a Llywio	

Ruth Cayford
Visual Arts Manager/
Rheolwr Celfyddydau Gweledol
Cardiff Council/Cyngor Caerdydd
Cardiff Contemporary c/o
St David's Hall, The Hayes/
Neuadd Dewi Sant, yr Aes
Cardiff/Caerdydd, CF10 1AH

cardiffcontemporary.co.uk
caerdyddgyfoes.co.uk
rcayford@cardiff.gov.uk
facebook.com/CardiffContemporary
@cardiffcontemp
#RevealConceal #DatgeluCelu

The ongoing aims of Cardiff Contemporary are to:

- Recognise the City's wealth of creative talent and activity, and promote Cardiff as a platform for a collective, creative vision.
- Encourage and raise the profile of visual art activity in Cardiff to local, national and international audiences.
- Nurture and promote the wealth of artistic talent and activity present in Cardiff and encourage new visual art activity.
- Encourage public engagement with the visual arts.
- Establish Cardiff as an innovative, progressive world city for contemporary arts and design.

Mae nodau parhaus Caerdydd Gyfoes fel a ganlyn:
• Cydnabod cyfoeth y Ddinas o dalent a gweithgarwch creadigol, a hyrwyddo Caerdydd fel llwyfan ar gyfer gweledigaeth gyfunol a chreadigol.
• Annog a chodi proffil y celfyddydau gweledol yng Nghaerdydd i gynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
• Meithrin a hyrwyddo'r cyfoeth o dalent a gweithgarwch artistig sy'n bresennol yng Nghaerdydd ac annog gweithgarwch newydd yn y maes.
• Annog ymgysylltiad cyhoeddus â'r celfyddydau gweledol.
• Sefydlu Caerdydd yn ddinas fyd-eang, arloesol, datblygiadol o ran y celfyddydau gweledol a dylunio.

This report offers an overview of Cardiff Contemporary Festival 2014, which took place between October 3rd and November 9th 2014, a newly established citywide biennial festival promoting and celebrating the visual arts in the capital city of Wales. Cardiff Contemporary is a Cardiff Council initiative, co-funded by the Arts Council of Wales, and developed in partnership with Cardiff's communities of artists, designers and architects.

The project is integral to Cardiff Council's corporate plan for contemporary visual arts and its vision for the economic profile and regeneration of the city, and worked innovatively to ensure optimal collaboration with local and national stakeholders including the artistic community and cultural, educational, commercial and governmental sectors. The initiative created and developed international dialogues and partnerships which encouraged high profile visual arts festivals, events, installations, exhibits and activity for an exciting city-wide experience - creating a buzz for cultural tourism, promoting cultural democracy, breaking down barriers to participation, and maximizing public engagement.

Cardiff Contemporary 2014 presented a coordinated programme of curated activity which included thirty commissions and three artist residencies; visual art exhibitions, innovative sonic art interventions, talks and events, transformation of spaces and Open Studios; all of which was supported by our website, invigilation and live guide programme and the Cardiff Art Map publication. Through these commissions the festival directly engaged 472 artists, with the number of artists and curators benefiting totalling 543. The commissions facilitated 81 events featuring work from 32 countries, promoting Cardiff's cultural profile on the international stage.

Cardiff Contemporary worked in partnership with other cultural events, festivals and organisations that have already made Cardiff their home, including the international Artes Mundi prize, the artists' moving image festival Outcasting: Fourth Wall, the Experimentica festival for live art and performance, the Made by Hand, contemporary craft fair at City Hall and the hyper-local festival, Made in Roath.

This report summarises each commission and highlights the number of people who engaged with the festival and who had access to it. The insights collected together include feedback from commissioned artists, curators and organisations, visitors and participants; social media and in depth interviews with key stakeholders, all of which is underpinned by an active knowledge exchange between artists, organisers and the public.

Mae'r project yn allweddol i gynllun corfforaethol Cyngor Caerdydd ar gyfer y celfyddydau gweledol cyfoes a'i weledigaeth ar gyfer proffil economaidd ac adfywiad y ddinas, a bu'n gweithio'n arloesol i sicrhau cymaint o gydweithredu â phosib gyda rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys y gymuned artistig a sectorau diwylliannol, addysgol, masnachol a llywodraethol. Anogodd y fenter sgyrsiau a phartneriaethau rhyngwladol ar weiniodd at wyliau, digwyddiadau, gosodiadau, arddangosiadau a gweithgareddau proffil uchel ym maes y celfyddydau gweledol, a grëodd gyffro ledled y ddinas gan roi hwb i dwristiaeth ddiwylliannol, hyrwyddo democratiaeth ddiwylliannol, chwalu rhwystrau i gyfranogiad ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa fawr.

Cyflwynodd Caerdydd Gyfoes 2014 raglen gydlynol o weithgarwch curadurol a oedd yn cynnwys 30 o gomisiynau a thair preswylfa artistig; arddangosfeydd celf weledol, ymyriadau celf sonig arloesol, sgyrsiau a digwyddiadau, gwaith i drawsnewid gofodau a Stiwdios Agored; a ategwyd gan ein gwefan, ein rhaglen oruchwylio, ein canllaw byw a Map Celf Caerdydd. Drwy'r comisiynau hyn gwnaeth yr Ŵyl gynnwys 472 o artistiaid, a chafodd 543 o artistiaid a churaduron fudd ohoni. Hwylusodd y comisiynau 81 o ddigwyddiadau gyda gwaith o dros 32 o wledydd, gan hyrwyddo proffil diwylliannol Caerdydd yn rhyngwladol.



Gweithiodd Caerdydd Gyfoes mewn partneriaeth â digwyddiadau, gwyliau a sefydliadau diwylliannol eraill sydd eisoes wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd, gan gynnwys gwobr ryngwladol Artes Mundi, gŵyl darluniau symudol Outcasting: Fourth Wall, gŵyl Experimentica o gelf a pherfformiadau byw, Gwnaed â Llaw, ffair grefftau gyfoes yn Neuadd y Ddinas, a'r Ŵyl leol Made in Roath.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi pob comisiwn ac yn nodi nifer y bobl a ymgysylltodd â'r Ŵyl ac a gafodd fynediad iddi. Mae'r adborth yn cynnwys barn artistiaid a gomisiynwyd, curaduron a sefydliadau, ymwelwyr a chyfranogwyr; y cyfryngau cymdeithasol a chyfweliadau manwl gyda rhanddeiliaid allweddol. Ategwyd hyn oll drwy gyfnewid gwybodaeth rhwng artistiaid, trefnwyr a'r cyhoedd.

CARDIFF CONTEMPORARY INFOGRAPHIC

03.10 - 09.11.2014




countries represented
within the festival



CAERDYDD GYFOES FFEITHLUN

03.10 - 09.11.2014

gwledydd wedi'u
cynrychioli yn yr wyl




Economic & Cultural Benefits to the City Manteision Economaidd a Diwylliannol i'r Ddinas

The UK creative industries were worth a record £76.9 billion to the UK economy in 2013, after growing by almost 10 per cent year on year. Official statistics from the Department of Culture, Media and Sport, show the industries made an economic contribution which equates to £8.8m per hour of Gross Value Added (GVA) or £146,000 a minute. Growth in the creative industries was higher than in any other UK industry and was three times the average increase in the UK economy during the period

Roedd diwydiannau creadigol y DU werth £76.9 biliwn i economi'r DU yn 2013, ar ôl twf o bron 10 y cant o flwyddyn i flwyddyn. Mae ystadegau swyddogol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dangos bod y diwydiannau'n gwneud cyfraniad economaidd sydd gyfwerth â £8.8m yr awr o Werth Ychwanegol Gros, neu £146,000 y funud. Roedd twf y diwydiannau creadigol yn fwy nag unrhyw ddiwydiant arall yn y DU, a theingwaith yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer economi'r DU dros y cyfnod

Creative Industries Economic Estimates - January 2014, Department for Culture, Media & Sport/ Amcangyfrifon Economaidd y Diwydiannau Creadigol - Ionawr 2014, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon



The Cardiff Contemporary initiative was established following a consultation period in 2010-11 initiated by Professor Terry Stephens which identified both the economic and cultural benefits to the city of promoting and developing the contemporary visual arts. A successful pilot festival took place during Oct and Nov 2012 and through this process, a highly credible, expert steering group was formed. The pilot provided an excellent template, and positive experience of inter-departmental collaboration within Cardiff Council and wider partnerships on which to base future festivals and applications for major funding.

An important ambition of Cardiff Contemporary is to create the environment for the arts to flourish, which is also one of the key researched objectives of The Arts Council's Strategy for Creativity and the Arts in Wales, Inspire, published on December 4th 2014. The ACW objectives of Increasing the value of international cultural exchange to the arts in Wales, Funding new opportunities ways and places for people to enjoy and take part in the arts and Protecting and growing the economic base for the arts in Wales; are also integral to the festival's ambitions.

Cardiff Contemporary is unique in being collectively driven by Cardiff Council and a core of local artists, curators, commissioners and visual arts organisations; supporting agendas and ambitions of both the visual arts community and the Council. Cardiff Contemporary is integral to Cardiff Council's corporate plan for contemporary visual arts and its vision for the economic profile and regeneration of the city; acknowledging the role of arts and culture in making our cities better places to live, work and visit.

Sefydlwyd menter Caerdydd Gyfoes ar ôl cyfnod o ymgynghori yn 2010-11, proses a ddechreuwyd gan yr Athro Terry Stephens a nododd y buddion economaidd a diwylliannol i'r ddinas o hyrwyddo a datblygu'r celfyddydau gweledol cyfoes. Cynhaliwyd gŵyl beilot lwyddiannus ym mis Hydref a mis Tachwedd 2012 a, thrwy hyn, sefydlwyd grŵp llywio arbenigol. Darparodd y peilot hwn dempled arbennig a chafwyd profiad cadarnhaol o gydweithredu rhyngadrannol o fewn Cyngor Caerdydd a phartneriaethau ehangach. Rhoddodd hyn lwyfan i adeiladu arno ar gyfer gwyliau yn y dyfodol a cheisiadau am gyllid.

Un o nodau pwysig Caerdydd Gyfoes yw creu amgylchedd lle gall y celfyddydau ffynnu. Mae hyn hefyd yn un o amcanion allweddol Inspire, Strategaeth Creadigrwydd a Chelfyddydau Cyngor y Celfyddydau, a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2014. Mae amcanion canlynol Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn allweddol i uchelgais yr ŵyl; Cynyddu gwerth cyfnewidfeydd diwylliannol rhyngwladol i'r celfyddydau yng Nghymru, Ariannu cyfleoedd newydd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau, Diogelu ac ehangu'r sail economaidd ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru.

Mae Caerdydd Gyfoes yn unigryw. Mae'n cael ei chyflwyno ar y cyd gan Gyngor Caerdydd ac artistiaid, curaduron, comisiynwyr a sefydliadau celfyddydau gweledol lleol; gan ategu agendâu ac uchelgais y celfyddydau gweledol a'r Cyngor. Mae Caerdydd Gyfoes yn rhan annatod o gynllun corfforaethol Cyngor Caerdydd ar gyfer y celfyddydau gweledol cyfoes a'i weledigaeth ar gyfer proffil economaidd ac adfywiad y ddinas. Mae'n cydnabod rôl y celfyddydau a diwylliant o ran gwneud ein dinas yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.

X

1. Richard Woods. Image courtesy/ Llyn gan Alex Vann.

2. Image courtesy/ Llyn gan Mark James.

3. Free Mountain, Goat Major Projects. Image courtesy/ Llyn gan GMP.

1



2




3



Cardiff in Context Caerdydd mewn Cyd-destun

Cardiff Contemporary has made Cardiff more happening, more like a capital city, and more of a cultural destination for visitors/tourism, as well as a more vibrant place to live. The city's visual arts culture is wonderfully diverse, and helps create a more positive image of Cardiff, than booze and rugby

survey respondent



We must not underestimate the importance of Cardiff Contemporary as an event, not only its help in the portrayal of Cardiff as a vibrant and healthy capital city to its indigenous population but very importantly to those who visit, or are thinking of visiting Cardiff and Wales. Arts events are a draw for potential tourists - this means money being spent in Wales and Cardiff. Arts events of quality give an image to inward investors that we here in Wales are culturally vibrant, that we not only have a past but a healthy future

Keith Bayliss, Artist

Cardiff's population has grown rapidly over recent years, one of the fastest in the UK and government projections suggest that the city's growth, at 26% over the next 20 years, will be one of the highest of any city in the UK. This growth reflects a wider trend: people want to live in Cardiff.

Cardiff Council's vision is for Cardiff 'To be Europe's most liveable Capital City', acknowledging visual culture as an important part of the city experience for Cardiff's visitors, residents and businesses, putting culture at the heart of the city's agenda, policies and planning to create significant social and economic benefits. With a modest investment and innovative partnership working, Cardiff Contemporary aligns funding across the visual arts in Cardiff, maximising the resources for a shared vision.

'Cultural tourism is one of the largest and fastest-growing tourism markets. Culture and creative industries are increasingly being used to promote destinations and enhance their competitiveness and attractiveness. Many locations are now actively developing their tangible and intangible cultural assets as a means of developing comparative advantages in an increasingly competitive tourism marketplace, and to create local distinctiveness in the face of globalisation.' - OECD The Organisation for Economic Co-operation and Development.

'The local success of the event is obvious. The sense of engagement in communities, the role of the visual arts in generating both 'feel good' activity and generating critical discussion was matched by the level of business activity generated. However what might be less obvious is the impact on the perception of Cardiff beyond Wales. As you know I work part-time in Bath, commuting from Cardiff. Moreover, for much of this autumn I was based in Leeds in research fellowship. I therefore had first-hand awareness of the extent to which these regions are, like many others, sitting up and noticing what we have long known about Cardiff: that it is not merely a good place to visit for high profile attractions, but is a place where on-the-ground activity gives a real cutting-edge 'buzz' - Michael Tooby, Professor of Art and Design, Bath School of Art & Design, Senior Research Fellow 2014-15, Henry Moore Institute Leeds, MT Independent Curatorial Projects Cardiff

The Cardiff Contemporary initiative is integral to helping the capital of Wales reach its full potential. Cardiff has the opportunity to positively reposition itself to a national and international audience and work towards its ambition to be known for culture and contemporary visual arts, profiting from all the associated social and economic benefits. This year alone visual arts activity in Cardiff has twice featured on BBC National News, and in the New York Times, Guardian and the Independent. There has never previously been appreciation for the visual arts in Cardiff/Wales at this level. We are optimistic for what we can collectively achieve in promoting a thriving visual art culture in Cardiff, and the subsequent economic and social impact of this.

X

Richard James and R Seilog, In Place of Fear, site-specific performance. Image courtesy Alex Vann/ Richard James ac R Seilog, In Place of Fear, perfformiad mewn safle penodol. Llun gan Alex Vann.

Mae Caerdydd Gyfoes wedi gwneud Caerdydd yn fwy perthnasol, yn fwy fel prifddinas, ac yn fwy o gyrchfan ddiwylliannol i ymwelwyr/twristiaid, yn ogystal ag yn lle gwell i fyw ynddo. Mae diwylliant celfyddydau gweledol y ddinas yn arbennig o amrywiol, ac mae'n helpu i greu darlun mwy cadarnhaol o Gaerdydd. Mae mwy yma nag alcohol a rygbi

ymatebwr i'r arolwg



Mae angen cydnabod gwir bwysigrwydd Caerdydd Gyfoes fel digwyddiad, nid yn unig gan ei bod yn helpu i bortreadu Caerdydd fel prifddinas fywiog ac iach i'w phoblogaeth frodorol ond hefyd i'r rheini sy'n ymweld â, neu'n ystyried ymweld â Chaerdydd a Chymru. Mae digwyddiadau celfyddydol yn denu twristiaid - sy'n golygu bod arian yn cael ei wario yng Nghymru a Chaerdydd. Mae digwyddiadau celf o ansawdd yn cyfleu darlun i fewnfuddsoddwyr ein bod ni yma yng Nghymru yn ddiwylliannol fywiog, a bod gennym ddyfodol ffyniannus

Keith Bayliss, Artist

'Mae twf diweddar poblogaeth Caerdydd ymysg y cyflymaf yn y DU (Centre for Cities, City Outlook 2013) ac mae amcanestyniadau'r llywodraeth yn awgrymu y bydd twf y ddinas, sef 42% dros yr 20 mlynedd nesaf, yn gyflymach nag unrhyw 'ddinas graidd' arall yn y DU. Mae'r twf hwn yn adlewyrchu tuedd ehangach: mae pobl eisiau byw yng Nghaerdydd.' Ail-greu Momentwm - Dadansoddiad Cymharol o Berfformiad Economaidd Caerdydd, Cyngor Caerdydd.

Gweledigaeth Cyngor Caerdydd yw sicrhau mai Caerdydd yw'r 'Brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop', gan gydnabod diwylliant gweledol fel rhan bwysig o'r profiad dinesig i ymwelwyr, preswylwyr a busnesau, a rhoi diwylliant wrth wradd agenda, polisiâu a gwaith cynllunio'r ddinas i sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Yn dilyn buddsoddiad rhesymol a gwaith partneriaeth arloesol, mae Caerdydd Gyfoes yn alinio cyllid ar draws maes y celfyddydau gweledol yng Nghaerdydd, gan sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau mewn perthynas â gweledigaeth a rennir.

'Twristiaeth ddiwylliannol yw un o'r marchnadoedd twristiaeth mwyaf ac sy'n tyfu gyflymaf. Mae diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn cael eu defnyddio fwyfwy i hyrwyddo cyrchfannau a rhoi hwb i'w cystadleurwydd a'u hapêl. Mae llawer o leoliadau bellach yn datblygu eu hasedau diwylliannol diriaethol ac anniriaethol yn weithredol fel ffordd o sicrhau mantais gymharol mewn marchnad dwristiaeth sy'n fwyfwy cystadleuol ac i fod yn unigryw wrth wynebu globaleiddio.' - Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

'Mae llwyddiant lleol y digwyddiad yn amlwg. Gwelwyd ymgysylltu cymunedol, gweithgareddau i ddoed â gwên i'r wyneb a thrafodaethau beirniadol law yn llaw â gweithgarwch busnes. Fodd bynnag, yr hyn sy'n llai amlwg yw'r effaith ar ganfyddiadau o Gaerdydd y tu hwnt i Gymru. Fel rydych chi'n gwylbod, rwy'n gweithio yng Nghaerfaddon, yn cymudo o Gaerdydd. At hynny, roeddwn i'n gweithio yn Leeds fel rhan o gymrodoriaeth ymchwil am lawer o'r hydref. Felly, fe welais gyda'm llygaid fy hun i ba raddau mae'r ardaloedd hyn, fel llawer o ardaloedd eraill, yn sylwi ar yr hyn rydyn ni eisoes yn ei wybod am Gaerdydd: nid dim ond lle da i ymweld ag ef ydyw, mae hefyd yn rhywle lle mae gweithgareddau ar lawr gwlad yn creu tipyn o 'fwrllwm' - Michael Tooby, Athro Celf a Dylunio, Ysgol Celf a Dylunio Caerfaddon, Uwch Gymrawd Ymchwil 2014-15, Prifysgol Henry Moore, MT Independent Curatorial Projects Cardiff

Mae gan Gaerdydd gyfle i gyfleu darlun newydd o'i hun i gynulleidfa genedlaethol a rhyngwladol a gweithio tuag at ei huchelgais o fod yn enwog am ei diwylliant a'i chelfyddydau gweledol ac elwa o'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig. Eleni, mae celfyddydau gweledol Caerdydd wedi cael sylw ar newyddion cenedlaethol y BBC ddwywaith ac yn y New York Times, The Guardian a The Independent. Mae hyn yn torri tir newydd i'r celfyddydau gweledol yng Nghaerdydd/ Cymru ar y lefel hon. Rydyn ni'n optimistaidd o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd drwy hyrwyddo diwylliant celfyddydau gweledol ffyniannus Caerdydd, a'r effeithiau economaidd a chymdeithasol dilynol.

Cultural Exchange & International Dialogues
Cyfnewidfa Ddiwylliannol a Sgyrsiau Rhyngwladol

32 countries from across the world were represented within the 33 commissions and partner activities of Cardiff Contemporary 2014. Artists applied for commissions from a further 10 countries, and downloaded application forms from a further 20. As an initiative, Cardiff Contemporary is distinctively Welsh, but also outward looking – aiming to build an international and culturally connected profile, which will help to positively reposition Cardiff to an international audience and encourage more visitors to the city, and to Wales.

'I didn't know much about Cardiff or about Wales before coming here. I was aware of some similarities with Scotland, which is where I have lived for the past 4 and half years, in terms of industrialisation and de-industrialisation, but what I knew was mostly about the valleys.

I think Cardiff is in a very interesting position, where the arts have the potential to play a crucial role in the making of the city. Glasgow is a different sort of city, bigger and therefore offering more spaces, further away from London and the rest of the UK. On the other hand I can feel something similar to the transformation that occurred over the past decades to Glasgow happening in Cardiff.

In Venice space is very precious. We are talking about a small island with a big international art scene, that despite the biennale and despite a number of local foundations and organisations (bevilaqua la masa e.g.) doesn't leave much to local artists (young or old). Venice is a window city, to exhibit work; Cardiff is a workshop city, to make it, to try out what is possible.'

Artist in Residence Daniele Sambo, born in Venice and currently based in Glasgow

To create a legacy of long-term growth and sustainability in Cardiff's cultural sector, we are looking to build upon the dialogues initiated by Cardiff Contemporary during 2014. One of the great opportunities, as well as challenges, is to research and develop international partnerships and projects, enabling international artists, galleries and curators to become aware of the city of Cardiff and share their work with audiences here in Wales. This is in line with feedback we received from the public, and Cardiff Contemporary's wider aims and objectives to positively reposition Cardiff as an innovative and progressive world city for arts and culture.

32

Countries Represented in Cardiff Contemporary Programme

Wales	Serbia
England	Portugal
Scotland	Israel
Austria	Croatia
Germany	Netherlands
Italy	Australia
Brazil	Pakistan
New Zealand	Slovenia
Spain	USA
Russia	Peru
Iceland	Poland
Ireland	Lithuania
Canada	Norway
Argentina	China
South Africa	Sweden
Romania	Denmark

10

Additional countries artists applied from

Algeria	Vietnam
Iran	Macedonia
South Korea	Philippines
Japan	Thailand
Czech Republic	Switzerland

20

Additional countries artists downloaded application from

France	United Arab
India	Emirates
Egypt	Guam
Finland	Tunisia
Greece	Turkey
Taiwan	Colombia
Austria	Hong Kong
Mexico	Hungary
Ukraine	Bermuda
Montenegro	Belgium
	Bangladesh

Cynrychiolwyd 32 o wledydd o bedwar ban byd gan y 33 o gomisiynau a gweithgareddau partneriaid Caerdydd Gyfoes 2014. Cyflwynwyd ceisiadau am gomisiynau o 10 gwlad arall, a chafodd ffurflenni cais eu lawrlwytho mewn 20 o wledydd eraill. Fel menter, mae Caerdydd Gyfoes yn Gymreig ei naws, ond mae hefyd yn edrych tuag allan - gan anelu at adeiladu proffil rhyngwladol a diwylliannol cysylltiedig a fydd yn helpu i gyfleu darlun newydd o Gaerdydd i gynulleidfa ryngwladol a denu mwy o ymwelwyr â'r ddinas, ac â Chymru.

'Doeddwn i ddim yn gwybod llawer am Gaerdydd a Chymru cyn dod yma. Roeddwn i'n gwybod bod Cymru'n eithaf tebyg i'r Alban, lle rydw i wedi bod yn byw ers 4 blynedd a hanner, o ran diwydianeiddio a dad-ddiwydianeiddio, ond roedd yr hyn roeddwn i'n ei wybod yn bennaf am y Cymoedd.

Mae Caerdydd mewn sefyllfa ddiddorol iawn lle mae gan y celfyddydau'r potensial i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o lunio'r ddinas. Mae Glasgow yn ddinas wahanol. Mae'n fwy o faint ac felly mae mwy o le, ac mae'n bellach i ffwrdd o Lundain a gweddill y DU. Ar y llaw arall, rwy'n teimlo bod yna debygrwydd rhwng trawsnewidiad Glasgow dros y degawdau diwethaf a'r hyn sy'n digwydd yng Nghaerdydd.

Mae gofod yn werthfawr iawn yn Fenis. Mae'n ynys fechan â sîn gelf ryngwladol, ac er bod y biennale a nifer o sefydliadau lleol (bevilaqua la masa, er enghraifft) yn bodoli, does dim llawer o le ar gyfer artistiaid lleol (hen ac ifanc). Mae Fenis yn ffenestr i arddangos gwaith; mae Caerdydd yn weithdy sy'n creu gwaith, sy'n ceisio canfod yr hyn sy'n bosibl.'

Daniele Sambo, Artist Preswyl a aned yn Fenis ac sy'n byw yn Glasgow ar hyn o bryd

I greu etifeddiaeth o dwf hirdymor a chynaliadwyedd yn sector diwylliannol Caerdydd, rydyn ni am adeiladu ar y sgyrsiau a sefydlwyd gan Caerdydd Gyfoes yn 2014. Un o'r cyfleoedd pennaf, sydd hefyd yn her, yw ymchwilio a datblygu partneriaethau a phrojectau rhyngwladol, gan sicrhau bod artistiaid, orielau a churaduron rhyngwladol yn dod yn ymwybodol o ddinas Caerdydd ac yn rhannu eu gwaith â chynulleidfaoedd yma yng Nghymru. Mae hyn yn unol â'r adborth a gawsom gan y cyhoedd a nodau ac amcanion ehangach Caerdydd Gyfoes i gyfleu darlun cadarnhaol newydd o Gaerdydd fel dinas fyd-eang, arloesol a datblygiadol o ran y celfyddydau a diwylliant.

32

Gwledydd a gynrychiolwyd yn rhaglen Caerdydd Gyfoes

Cymru	Serbia
Lloegr	Portiwgal
Yr Alban	Israel
Awstria	Croatia
Yr Almaen	Yr Iseldiroedd
Yr Eidal	Awstralia
Brasil	Pacistan
Seland Newydd	Slofenia
Sbaen	UDA
Rwsia	Periw
Gwlad yr Iâ	Gwlad Pwyl
Iwerddon	Lithwania
Canada	Norwy
Yr Ariannin	Tsieina
De Affrica	Sweden
Rwmania	Denmarc

10

Gwledydd eraill y cyflwynwyd cais ohonynt

Algeria	Fietnam
Iran	Macedonia
De Corea	Ynysoedd
Japan	Philippines
Y Weriniaeth	Gwlad Thai
Tsieic	Y Swistir

20

Gwledydd eraill y lawrlwythodd artistiaid geisiadau ohonynt

Ffrainc	Yr Emeraethau
India	Arabaidd Unedig
Yr Aifft	Guam
Y Ffindir	Tiwnisia
Gwlad Groeg	Twrci
Taiwan	Colombia
Awstria	Hong Kong
Mecsico	Hwngari
Yr Wcráin	Bermuda
Montenegro	Gwlad Belg
	Bangladesh

Partnerships Partneriaethau

One of the most valuable and sustainable legacies of developing a large scale project such as Cardiff Contemporary is the opportunity to establish new joint working practice across sectors, strengthening and developing new partnerships. The Cardiff Contemporary initiative has particularly focussed on facilitating collaboration between local and national stakeholders, the artistic community and cultural, educational, commercial and governmental sectors.

The key arts partners of the initiative to date include: Arts Council of Wales, Artes Mundi, g39, Chapter, Ffotogallery, Outcasting: Fourth Wall, EMP Projects and Goat Major Projects.

Positive inter-departmental collaboration within Cardiff Council was key to the festival's success and the initiative worked with and were supported by the following departments: St David's Hall, Cardiff Castle, The Cardiff Story, Events team, Planning, Highways, the Harbour Authority, Regulatory, City Centre Management, Tourism and Information, Economic development, Welsh Translation, I.T, Media and Communications, the Capital Times, the Executive and Members.

Partnerships with local businesses and organisations included Arriva Trains Wales, Morgan Cultural Quarter (Oscar Clarke), Mansford, Savilles, Millennium Stadium, Cardiff Metropolitan School of Art and Design, Cardiff University School of Architecture, Visit Wales, Queens Arcade, SD2, Cardiff Bus, The Hoteliers Association, The Design Circle, Elfen, Network Rail, South Wales Echo, Radio Cardiff, Cardiff Castle, Cardiff Sight Seeing Tours, South Wales Miners' Library and the Austrian Embassy. These relationships enabled the Cardiff Contemporary initiative to maximise public engagement and reach out to a significant variety of audiences in new and dynamic ways.

1

Arts Council of Wales is the country's funding and development agency for the arts, and their vision of a creative Wales where the arts are central to the life of the nation. ACW co-funded Cardiff Contemporary 2014, contributing a major festival grant.

Artes Mundi is an internationally focused arts organisation that identifies, recognises and supports contemporary visual artists who engage with the human condition, social reality and lived experience. Artes Mundi is best known for its biennial international exhibition and prize, the largest art prize in the UK.

Chapter is an ambitious, multi-artform cultural centre based in Cardiff, Wales that commissions, produces and presents international art, performance and film alongside a dynamic social space.

g39 is a dynamic artist-led organisation for contemporary art in Wales. Part gallery, part community and part resource, it is a welcoming space for audiences to experience a selection of Wales' most exciting and relevant contemporary art.

Ffotogallery is the national development agency for photography and lens-based media in Wales.

Outcasting: Fourth Wall aims to take artists' moving image to a wider public through a number of different platforms, venues and opportunities both virtual and physical using traditional screenings, installations and site specific commissions.

EMP Projects and associates are an independent curating and commissioning agency, developing and brokering commissions with artists', architects, creative practitioners and communities to transform public spaces.

Goat Major Projects is an experimental project space which began with a programme of exhibitions and off site activity supporting emerging artists and curators. GMP sees its role as a facilitator of creativity more than presenter of activity.

X

1. Image courtesy/
Llun gan Mark James.

2. Carwyn Evans, UDD,
g39. Image courtesy/Llun
gan Dewi Tannat Lloyd.

Un o'r canlyniadau mwyaf gwerthfawr a chynaliadwy o ddatblygu project mawr fel Caerdydd Gyfoes yw'r cyfle i sefydlu arferion cydweithio newydd ar draws sectorau, gan atgyfnerthu a datblygu partneriaethau newydd. Yn benodol, canolbwyntiodd menter Caerdydd Gyfoes ar hwyluso trefniadau cydweithio rhwng rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol, y gymuned artistig a'r sectorau diwylliannol, addysgol, masnachol a llywodraethol.

Mae partneriaid celfyddydol allweddol y fenter yn cynnwys: Cyngor Celfyddydau Cymru, Artes Mundi, g39, Chapter, Ffotogallery, Outcasting: Fourth Wall, EMP Projects a Goat Major Associates.

Roedd cydweithio rhyng-adrannol cadarnhaol o fewn Cyngor Caerdydd yn allweddol i lwyddiant yr ŵyl. Cefnogwyd yr adrannau canlynol: Neuadd Dewi Sant, Castell Caerdydd, Stori Caerdydd, y Tîm Digwyddiadau, Cynllunio, Priffyrdd, Awdurdod yr Harbwr, Rheoleiddio, Rheoli Canol y Ddinas, Twristiaeth a Gwybodaeth, Datblygu Economaidd, Caerdydd Ddwyieithog, TG, y Cyfryngau a Chyfathrebu, Llais y Ddinas, y Weithrediaeth ac Aelodau.

Sefydlwyd partneriaethau gyda busnesau a sefydliadau lleol, gan gynnwys Trenau Arriva Cymru, Morgan Cultural Quarter (Oscar Clarke), Mansford, Savilles, Stadiwm y Mileniwm, Ysgol Celf a Dylunio Prifysgol Fetroplitan Caerdydd, Ysgol Bensaerniaeth Prifysgol Caerdydd, Croeso Cymru, Arcêd y Frenhines, SD2, Bws Caerdydd, Cymdeithas y Gwestywyr, The Design Circle, Elfen, Network Rail, South Wales Echo, Radio Cardiff, Castell Caerdydd, Cardiff Sight Seeing Tours, Llyfrgell Glowyr De Cymru a Llysgenhadaeth Awstria. Drwy'r perthnasau hyn, llwyddodd Caerdydd Gyfoes i ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa fawr a chyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaedd mewn ffyrdd newydd a deinamig.

2

Cyngor Celfyddydau Cymru yw asiantaeth gyllido a datblygu Cymru ar gyfer y celfyddydau. Mae ganddynt weledigaeth o Gymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn rhan annatod o fywyd y genedl. Cyd-ariannwyd Caerdydd Gyfoes 2014 gan Gyngor Celfyddydau Cymru drwy grant gŵyl sylweddol.

Mae Artes Mundi yn sefydliad celfyddydol rhyngwladol sy'n nodi, cydnabod a chefnogi artistiaid gwledol cyfoes sy'n ymgysylltu â'r cyflwr dynol, realaeth gymdeithasol a phrofiad bywyd. Mae Artes Mundi yn adnabyddus am ei harddangosfa a'i gwobr ryngwladol a ddyfernir bob dwy flynedd; gwobr gelf fwyaf y DU.

Mae Chapter yn ganolfan ddiwylliannol amlygyfrwng ac uchelgeisiol yng Nghaerdydd sy'n comisiynu, cynhyrchu a chyflwyno celf ryngwladol, perfformiadau a ffilmiau ochr yn ochr â gofod cymdeithasol bywiog.


Mae g39 yn sefydliad deinamig a arweinir gan artistiaid ym maes celf gyfoes yng Nghymru. Mae'n oriel, yn gymuned ac yn adnodd. Mae'n ofod sy'n croesawu cynulleidfaedd i ddod i weld detholiad o gelf gyfoes fwyaf cyffrous a phertnasol Cymru.

Ffotogallery yw'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer ffotograffiaeth a chyfryngau lens yng Nghymru.

Nod Outcasting: Fourth Wall yw cyflwyno darluniau symudol artistiaid i'r cyhoedd ehangach drwy nifer o lwyfannau, lleoliadau a chyfleoedd rhithwir a ffisegol gwahanol gan ddefnyddio sgriniau traddodiadol, gosodiadau a chomisiynau safle-benodol.

Mae EMP Projects & Associates yn asiantaeth guradu a chomisiynu annibynnol sy'n datblygu a brocera comisiynau gydag artistiaid, penseiri, ymarferwyr creadigol a chymunedau i drawsnewid gofod cyhoeddus.

Mae Goat Major Projects yn ofod project arbrofol a ddechreuodd gyda rhaglen o arddangosiadau a gweithgareddau oddi ar y safle i gefnogi artistiaid a churaduron sy'n dod i'r amlwg. Mae GMP yn ystyried ei hun yn sefydliad sy'n hwyluso creadigrwydd yn hytrach na chyflwyno gweithgareddau.




Public Engagement
Ymgysylltiad Cyhoeddus



1

Cardiff Contemporary has provided us with the opportunity to place our work directly in front of audiences without them having to enter into a gallery situation

good cop bad cop
Cardiff Contemporary Artists



Due to the nature of this public facing project, audiences were achieved 24 hours a day, 7 days a week, and this allowed maximum engagement from non-targeted audiences, including commuters, residents, tourists and visitors to local businesses

Andrew Cooper
Cardiff Contemporary Artist

Central to the aims of Cardiff Contemporary is an emphasis on public engagement with the visual arts, and this was reflected throughout the festival's development and delivery.

Across the dates of October 3rd - November 9th 2014, Cardiff Contemporary generated an estimated audience of 45, 263 people at invigilated spaces, an estimated 720,180 people engaged with the thirteen commissions in the public realm and an additional 14,000 people visited partner exhibitions and events. The festival season as a whole generated estimated audience of 765, 443, however during the festival dates the city centre footfall was 4,520,000 and so potential public access far exceeds this number.

